

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 19 Medi 2017

11.00 - 12.05

Rhwydwaith fideo

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd)
William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ellen Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr
Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)

Sylwedydd:

Nicola Hunt, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd
Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau:

Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
<p>1. Croeso a chyflwyniad</p>	<p>1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.</p>		
<p>2. Datganiadau o ddiddordeb</p>	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n cartrefu canolfan hyfforddi athrawon.</p> <p>2.3 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymddiswyddo fel aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Gorffennaf 2017.</p>		
<p>3. Penodi Cyfarwyddwr o blith y corff myfyrwyr</p>	<p>Penodi Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr</p> <p>3.1 Amlinellwyd proses penodi Cyfarwyddwr o blith y corff myfyrwyr gan yr Ysgrifennydd. Enwebwyd Ellen Jones gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru a chynhaliwyd cyfweiliad gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a'r Cofrestrydd ar 26 Gorffennaf 2017. Cafwyd yr argymhelliad i'w phenodi yn dilyn y cyfweiliad ei gylchredeg i aelodau eraill y Bwrdd ac roedd pob ymateb a dderbyniwyd yn gadarnhaol.</p>		

	3.2 Cytunwyd i'r penodiad a chroesawyd Ellen Jones i'w chyfarfod cyntaf.		
4. Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen	<p>4.1 Nodwyd diolch i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fu'n adolygu elfennau o weithgareddau'r Coleg. Nodwyd ymhellach bod y broses wedi ei hwyluso mewn modd trylwyr a thryloyw.</p> <p>4.2 Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 28 Medi. Bydd argymhellion yr adolygiad ar agenda'r cyfarfod.</p> <p>4.3 Cafwyd trafodaeth ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymateb cychwynnol swyddogion y Coleg iddynt. Yn deillio o'r drafodaeth nodwyd sylwadau dan y penawdau canlynol:</p> <p>Sector ôl-16</p> <ul style="list-style-type: none"> • Croesawyd yr argymhelliad i ymestyn rôl y Coleg i'r sector ôl-16 – rhagweld budd mawr i addysg bellach. • Ategwyd bod gwahaniaethau a chymhlethdodau oddi fewn i'r sector ôl-orfodol, gan gynnwys ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau a rhai sefydliadau gyda chenhadaeth arbennig. • Yr angen am fuddsoddiad sylweddol er mwyn gwireddu'r argymhellion yn y sector ôl-16. • Pryder ar faint o farchnata y gallai'r Coleg ddarparu heb gyllideb addas. 		

	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd y byddai goblygiadau o ran Cyfansoddiad y Coleg ac aelodaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr. • Perchnogaeth yr agenda - Pwy sydd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu strategaeth ôl-16 – y Coleg neu'r sector? Rôl awdurdodau lleol ac addysg gymunedol. Nodwyd y byddai cwestiynau o'r fath yn cael eu gwyntyllu yn y Grŵp Cynllunio arfaethedig. <p>Llywodraethiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen i gael Bwrdd sy'n cynrychioli arbenigedd sector gyfan â dealltwriaeth glir o'i strategaeth - pwysigrwydd cynrychiolaeth ar y lefel cywir h.y. lefel strategol yn y colegau yn hytrach na hyrwyddwyr. • Mae angen i'r gwahanol sectorau gael hyder yn y Bwrdd – ei fod yn adlewyrchu pob sector. • Nid oes angen Bwrdd mawr – byd masnach â byrddau llai. • Pwysigrwydd diogelu nodweddion a gwerthoedd gwreiddiol y Coleg (h.y. Addysg Uwch) wrth esblygu. • Angen symud o'r canfyddiad gwallus bod sedd gan bob sefydliad. • Pwyllgor Penodiadau a Safonau i benodi yn ôl sgiliau yn hytrach na derbyn enwebiadau. • Bydd angen ystyried amserlen y newidiadau – a'r gwahanol opsiynau ar gyfer cyfnod trosiannol • Yr angen am gyngor cyfreithiol pwrpasol ynghylch hyn. <p>Nodwyd o ran adolygu cyfansoddiad y Coleg a'r Bwrdd, y byddai Gweithgor y Cyfansoddiad yn</p>		
--	---	--	--

	<p>cyfarfod ar 27 Medi 2017 i ystyried cynigion i'w cyflwyno i Gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Tachwedd 2017.</p> <p>Marchnata</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen i'r sefydliadau eu hunain farchnata mwy. • Mae perygl ar hyn o bryd o golli niferoedd o un cyfnod allweddol i'r llall felly fe fyddai'r cyfrifoldeb newydd am Addysg Bellach yn cynnig cyfleoedd pellach o ran dilyniant. • Goblygiadau adnoddau (ariannol a dynol) wrth genhadu yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd. • Annog datblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg yn Addysg Bellach yn hytrach na hyrwyddo dilyniant i Addysg Uwch – newid pwyslais. • Angen edrych ar y Strategaeth Iaith. • Argymhelliad ddim mor syml ag y mae'r adroddiad yn awgrymu. <p>Mewn ymateb i gwestiwn nododd y Prif Weithredwr bod trafodaeth wedi cychwyn ar yr argymhellion ar farchnata ond na fyddai'r Coleg yn dod i gasgliadau ar hyn am rai misoedd.</p> <p>Cyllid</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Coleg wedi hwyluso'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon o'i adnoddau ei hun. • Goblygiadau adnoddau a chyllid i gefnogi staff, datblygu adnoddau a chynllunio. • Nodwyd bod perygl o wrthdaro buddiannau rhwng 3 sector gwahanol. • Angen costio clir ar gyfer y gofynion ychwanegol. 		
--	---	--	--

	<p>Ysgoloriaethau, Tystysgrif Sgiliau Iaith a chredydau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ystyried yn ofalus argymhellion ynghylch y Dystysgrif Sgiliau Iaith i Addysg Bellach a chefnogaeth ieithyddol yn gyffredinol. Bydd hwn yn fater i'w drafod eto yng nghyd-destun Addysg Bellach. • Bydd y Coleg yn parhau i ystyried yr argymhellion ar gredydau ac ysgoloriaethau. <p>Gweithrediad y Coleg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Coleg i roi sylw dyledus i systemau monitro er mwyn parhau i gynnal effeithlonrwydd. • Gochel rhag bod y Llywodraeth yn rhoi pwysau ar y Coleg i gyrraedd canran o ddisgyblion penodol sy'n astudio trwy'r Gymraeg. • Mae'r Coleg yn cymharu'n ffafriol gyda sefydliadau eraill o ran disgwyliadau monitro ac atebolrwydd ond dylid parhau i adolygu. Nodwyd bod y swyddogion eisoes wedi adolygu a symleiddio trefniadau monitro. <p>Canghennau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Potensial i ymestyn y canghennau i Addysg Bellach. • Nodwyd bod nifer o'r argymhellion eisoes ar droed. • Pwysleisiwyd yr angen am eglurder o ran hyd a lled cyfrifoldebau newydd y Coleg. <p>4.4 Diolchwyd yr aelodau am eu sylwadau ac i'r swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r ymatebion.</p>		
--	--	--	--

	<p>4.5 Cytunwyd i adolygu'r ymatebion yn sgil sylwadau'r aelodau. Cyflwynir Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar yr ymatebion i'r argymhellion i gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Tachwedd 2017. Nodwyd sylw'r Prif Weithredwr y byddai'n rhaid ystyried y Strategaeth Iaith, y Papur Gwyn a'r corff newydd a sefydlir ar gyfer addysg ôl-16 wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol.</p>	Llunio Cynllun Gweithredu	Erbyn 22 Tachwedd 2017
<p>5. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>5.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 22 Tachwedd 2017, Caerfyrddin • Cyfarfod y Llys, 7 Mawrth 2018, Aberystwyth • 8 Mawrth 2018, Aberystwyth • 20 Mehefin 2018, Wrecsam <p>5.2 Diolchwyd i'r cyfieithydd ar y pryd am ei waith.</p>		